## .....llygod

Y Llygoden Fach yw'r llygoden a welwch amlaf mewn tai, er bod rhywogaethau eraill fel Llygoden y Maes yr un mor barod i ddod i mewn i'n tai os gwelant fod modd yn y byd iddynt wneud hynny. Dyma'r rheol gyffredinol:- Gall llygoden wasgu drwy unrhyw dwll sy'n ddigon mawr i chi ddodi pen neu bensel ynddo.

## .....arferion magu

Bydd llygod yn magu ble bynnag y mae bwyd ar eu cyfer a deunydd addas iddynt nythu ynddo ac yn epilio'n syndod o gyflym. Bydd llygoden fach yn barod i fagu pan fydd rhwng 6 ac 8 wythnos oed ac yn gallu dod â thorraid o hyd at 8 o rai bach bob 20 niwrnod. Er na fydd llygod bach yn byw am fwy na rhyw dri neu bedwar mis, gallant achosi problemau difrifol yn fuan iawn os na wnewch unrhyw ymdrech i'w rheoli.

## .....clefydau a difrod

Gall llygod drosglwyddo clefydau i bobl. Gellwch ddal Salmonelosis drwy gyffwrdd â baw llygoden neu drwy fwyta bwyd a gafodd ei lygru gan ddŵr llygoden. Bydd llygod hefyd yn cario Leptosbirosis (Clefyd Weils), er ei bod yn ffurf lai peryglus ar y clefyd nag a drosglwyddir gan lygod Ffrengig.

Bydd llygod fel arfer yn achosi difrod un ai wrth dwrio i fewn i fwyd neu wrth gasglu deunydd ar gyfer nythu. Byddant yn ymosod ar bapurau, plastig, ffabrigau, pren a hefyd geblau ffôn a larwm o bryd i'w gilydd.

## .....rheoli

Archwiliwch eich tŷ er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ffordd y gall llygoden ddod i mewn iddo yna seliwch bob twll â sment. Peidiwch â gadael i unrhyw blanhigion dringo dyfu dros eich to am fod llygod yn gallu dringo'n dda. Peidiwch ychwaith â gadael bwyd anifeiliaid neu adar heb ei orchuddio am y bydd yn sicr o ddenu llygod. Gall anifeiliaid sy'n hela llygod yn naturiol megis adar a chathod eich helpu i'w rheoli, ond fel arfer ar ôl i lygoden fynd i mewn i dŷ, bydd yn ymsefydlu mewn man lle nad yw'n hawdd ymosod arni. Er bod dyfeisiadau sonig ar gael erbyn hyn ar gyfer rhwystro llygod rhag mynd i mewn i adeiladau, nid oes un ohonynt yn cael ei chymeradwyo gan unrhyw Fforwm Difa Pla.



03524 (9/07)

## .....trin llygod

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig gwasanaeth difa pla'n rhad ac am ddim i bob tŷ ond yn codi tâl am drin adeiladau masnachol. Serch hynny, os yw'n well gennych drin eich tŷ'ch hun, gellwch brynu gwenwyn mewn siopau fferyllydd a siopau cyfarpar. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y label cyn defnyddio gwenwyn a dilynwch y cyfarwyddiadau bob amser. Mae trapiau llygod ar gael hefyd a dylech eu gosod ble bynnag y mae baw llygoden neu y mae llygod yn ymddangos a chofiwch roi siocled ynddynt yn abwyd yn hytrach na chaws. Os ydych yn dal y llygod yn fyw, mae'n well eu gollwng yn rhydd ymhell o'ch tŷ, er eu bod yn debyg iawn o gael eu lladd yn fuan wedyn gan un o'r anifeiliaid sydd yn eu hela'n naturiol.

Taflenni eraill yn y gyfres hon:

| | | |
|---|---|---|
| 1 Chwain | 7 Mosgitos | 13 Chwilod Duon |
| 2 Llygod Ffrengig | 8 Colomennod | 14 Pŷcs |
| 3 Llygod | 9 Gwylanod | 15 Chwilod Carpedi |
| 4 Morgrug | 10 Gwiwerod | 16 Clêr |
| 5 Cacwn Meirch | 11 Cadnoid | |
| 6 Gwenyn | 12 Llau Llyfrau (Psocids) | |

Ein rhif cysylltu:

**01446 700111**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Ein cyfeiriad:

Gwasanaethau Amddiffyn y Cyhoedd,
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

ebost: contactonevale@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk

...gair o gyngor oddi wrth Wasanaeth Difa Pla Cyngor Bro Morgannwg...

an advice note from your Pest Control Service

No. 3 in the series

# mice!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk

## .....introduction

The most common mouse to be found inside houses is the House Mouse, although other species such as the Field Mouse and Wood Mouse will also enter houses with suitable access. The general rule is:- Any hole that you can put a pencil or pen into, a mouse will get through it.

## .....breeding habits

Mice will breed anywhere there is suitable food and nesting materials, breeding at an astonishing rate. House mice are sexually mature at 6-8 weeks old and are able to give birth to a litter of up to 8 young every 20 days. House mice only live for 3-4 months, but, if left unchecked, they can quickly become a serious problem.

## .....disease & damage

Mice are able to transmit diseases to humans. Salmonellosis can be transmitted by mouse droppings or urine contaminating food. Mice also carry Leptospirosis (Weils disease), although it is not as dangerous as the form carried by rats.

Damage is usually caused, either by mice 'gaining' access to food or gathering nesting materials. They attack papers, plastics, fabrics, wood and occasionally telephone and alarm cables.

## .....control

Properties should be checked for access points and any holes sealed with cement. Climbing plants should not be allowed to grow over the roof as mice are good climbers. Animal and bird food should not be left out, as this will attract mice. Natural predators such as birds and cats will help control mice, but once inside mice are usually active in areas where they cannot be attacked. Sonic devices are available to deter mice from entering properties, but none that are available are recommended by any Pest Control Forum.



03524 (9/07)

## .....treatment

The Vale provides a free pest control service to domestic houses but charges for commercial premises. However, if you prefer to treat yourself, poisons are available in chemists and hardware stores. Before use, always read the label and use as directed. Traps are also available and should be placed in areas where mice droppings or mice are being seen and baited with chocolate rather than cheese. If you are catching mice alive, they should be taken far away from your house before being released, but the mouse will probably be quickly killed by a predator after release.

Other leaflets available in this series:

1 Fleas
2 Rats
3 Mice
4 Ants
5 Wasps
6 Bees
7 Mosquitos
8 Pigeons
9 Seagulls
10 Squirrels
11 Foxes
12 Booklice (Psocids)
13 Cockroaches
14 Bedbugs
15 Carpet Beetles
16 Flies

Our contact number:

**01446 700111**

Our address:

Public Protection,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU

Email: contactonevale@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

...an advice note from the Pest Control Service at the Vale of Glamorgan Council...

Gair o gyngor oddi wrth eich Gwasanaeth Difa Pla

Rhif 3 yn y gyfres

# llygoden!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk